

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mehefin 10fed 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Arwel Davies, Geraint Jones, Gwilym Davies, Euros Puw, Cyng. Elwyn Edwards, Gwynfryn Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards, Geraint Davies a Gwynedd Jones.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### Gwefan i'r cynghorau cymuned.

Cafwyd adroddiad gan y clerch o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod gyda chynllunyydd y wefan, HG Webb Designs. Cytunwyd i ofyn i Gwynedd Jones gyd weithio gyda'r clerch i ysgrifennu cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned ar gyfer y wefan.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

### Gwteri/ffosydd wedi tagu ger Fedw Arian Isaf a Phant Neuadd, Parc.

Roedd swyddogion yr Adran Briffyrdd wedi ymweld â'r safleoedd a'r gwaith wedi cael ei roi ar y rhaglen gwaith.

### Cais am focs halen ger Ffridd Isaf, Maesywaen.

Nid oedd polisi'r Cyngor yn caniatáu iddynt osod bocs halen newydd ond roedd posib ail leoli bocs presennol i'r safle.

### Goryrru ger cyffordd Llanycil.

Cafwyd cadarnhad bod swyddog am ymweld â'r safle, gyda'r bwriad o edrych ar y posibilrwydd o osod marciau ffordd Araf/Slow mewn lleoliad addas.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn/Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd yr ail rybudd ynglŷn â'r gwaharddiadau trafndiaeth trwodd dros dro a oedd yn effeithio'r ffordd yn Llidiardau er mwyn galluogi gwaith adnewyddu ar y gwifrau trydan uwchben y ffordd.

### c) Un Llais Cymru.

i) Copi diweddaraf 'Y Llais'.

### ch) Grŵp llywio Mynyddoedd Pawb

i) Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i'w hymgyrch i geisio perswadio cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd. Cytunwyd i yrru llythyr o gefnogaeth.

## **Materion Ariannol.**

### Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerch bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerch y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilwyr mewnol, UHY Hacker Young.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

TGTHE (TWE) – 2 sic ar gyfer y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol.

## **Materion Lleol.**

### Goryrru drwy bentref Parc.

Trafodwyd diogelwch plant y pentref gan fod cynifer o yrwyr yn anwybyddu'r arwyddion 30 m.y.a. ac yn gyrru drwy'r pentref. Yn anffodus roedd canran uchel o'r gyrwyr yn drigolion lleol a gofynnwyd i'r cynghorwyr geisio codi ymwybyddiaeth o'r broblem cyn i unrhyw blentyn cael niwed.

### Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

- i) Pont Llwynhir, Parc - roedd nifer o'r cerrig ar dop y bont yn rhydd ac yn disgyn i'r afon is law gan fod y concrit wedi dechrau pydru.
- ii) Dwr yn hel ar y ffordd a'r rhiw Plas Madog, Parc - roedd gwteri ger llaw wedi tagu gan achosi i'r dŵr hel ar y ffordd.
- iii) Man casglu ysbwriel/ail gylchu ger Pant Neuadd, Parc - cafwyd cais am ffrâm i ddal y bocsys ail gylchu a'r bin sbwriel yn eu lle. Roedd 10 annedd yn gadael ei ysbwriel a bocsys ail gylchu yma ac mewn tywydd gwyntog roedd y biniau a'r bocsys yn cael ei daflu o gwmpas a llanast yn cael ei chwalu i bobman.